ATODLEN 2

Cymhwyso ac anghymhwyso

**Anghymhwyso cyfarwyddwyr cwmnïau**

**7.** Mae person wedi ei anghymhwyso rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd fel aelod ar unrhyw adeg pan fo'r person hwnnw yn ddarostyngedig i—

(a) gorchymyn anghymhwyso neu ymgymeriad anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986(**1**);

(b) gorchymyn anghymhwyso o dan Ran 2 o Orchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989(**2**);

(c) ymgymeriad anghymhwyso a dderbyniwyd o dan Orchymyn Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002(**3**); neu

(d) gorchymyn a wnaed o dan adran 429(2)(b) o Ddeddf Ansolfedd 1986(**4**) (methu â thalu o dan orchymyn gweinyddu llys sirol).

(**1**) 1986 p. 46.
(**2**) Rhif 2404 (G.I. 18).
(**3**) Rhif 3150 (G.I. 4).
(**4**) 1986 p. 45.